Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cae'r Gwenyn

**Ffordd y Tywysog Charles**
**Wrecsam**
**LL13 8TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Cae'r Gwenyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cae'r Gwenyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 59 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 12 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 27 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 97% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 100% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/06/2023 |

Mae Ysgol Cae'r Gwenyn yn ysgol brif ffrwd ond yn gweithredu fel darpariaeth adnoddau ADY arbenigol. Caiff bron pob un o'r disgyblion eu cyfeirio at y ddarpariaeth gan awdurdod lleol Wrecsam. Mae yna ddisgyblion oedran addysg gynnar, meithrin a derbyn yn yr ysgol ar hyn o bryd. O flwyddyn academaidd 2023-2024, bydd dosbarth o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn yr ysgol am y tro cyntaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae gan bron bob un o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae bron pob un

ohonynt yn ddieiriau pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer Ysgol Cae’r Gwenyn yn un am ysgol lle mae pob plentyn yn ffynnu, er gwaethaf unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddo. Mae arweinwyr a staff yn darparu awyrgylch teuluol cynnes yn yr ysgol. Caiff pob disgybl ei werthfawrogi fel unigolyn, a chroesewir eu hanghenion a’u diddordebau yn llawn. Mae’r staff yn adnabod y disgyblion a’u teuluoedd yn dda iawn ac yn trafod pob agwedd ar ddatblygiad y plentyn yn rheolaidd. Maent yn canolbwyntio ar y pethau cadarnhaol ac yn galluogi pob plentyn i ffynnu. Mae cymuned yr ysgol yn gweithio gyda’i gilydd yn llwyddiannus i oresgyn heriau.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sy’n llai datblygedig na’r rhan fwyaf o’r plant o’u hoedran nhw, ond yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu annibyniaeth ac yn magu hyder trwy gefnogaeth ac anogaeth gyson gan staff medrus yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau trwy chwarae gydag ystod gyfoethog o adnoddau. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ddieiriau pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ond yn datblygu hyder yn eu medrau cyfathrebu yn raddol, gan wneud arwyddion weithiau fel bod pobl yn eu deall. Maent yn parhau i ymgysylltu am gyfnodau byr ac yn dangos lefel ddatblygol o ddealltwriaeth.

Mae lles disgyblion yn ganolog i bopeth yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm difyr yn seiliedig ar ddatblygu medrau cyfathrebu’r disgyblion. Mae profiadau dysgu wedi’u cynllunio i gynorthwyo disgyblion i ddeall a chael eu deall. Mae staff yr ysgol yn hynod fedrus ac yn darparu cymorth rhagorol i ddatblygu medrau geiriol a dieiriau disgyblion. Mae disgyblion yn dangos mwynhad yn ystod gweithgareddau ac yn datblygu hyder wrth wneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef. Fodd bynnag, mae eu cyfleoedd i ddewis ble maent yn chwarae, a sut, yn llai datblygedig. Maent yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu ac yn dangos brwdfrydedd go iawn. Wrth weithio ochr yn ochr ag oedolion, maent yn dangos lefelau datblygol o ganolbwyntio a dyfalbarhad. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn cael eu cysuro gan eu blwch o bethau arbennig, sy’n gyfarwydd iddynt ac yn cael effaith ymlaciol a lleddfol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu ag ymweliadau i gyfoethogi eu dysgu yn llai datblygedig.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd ymhellach i ddisgyblion wneud dewisiadau wrth iddynt chwarae

A2 Datblygu cyfleoedd ymhellach i ddisgyblion ymgysylltu ag ymweliadau yn yr ardal i ymestyn eu profiadau dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â datblygu medrau cyfathrebu cynnar gyda disgyblion dieiriau yn bennaf, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae bron pob un o’r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sy’n llai datblygedig na’r rhan fwyaf o blant o’u hoedran. Caiff bron pob un ohonynt eu rhoi yn y lleoliad trwy ddull rheoledig gyda’r awdurdod lleol, ac mae hyn yn adlewyrchu’r amrywiaeth o asesiadau ac ymyriadau cynnar sydd wedi cael eu cynnal yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu annibyniaeth a medrau personol yn raddol trwy ymgysylltu’n barhaus â staff medrus yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau corfforol da. Er enghraifft, maent yn dringo’r grisiau ac yn symud i lawr y llithren yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn dangos balans, cryfder a chydsymud da wrth chwarae ar yr offer pren mawr, gan gerdded ar hyd y gyfres o foncyffion neu reidio treiciau.

Mae medrau echddygol manwl llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda yn unol â’u cyfnod datblygu. Er enghraifft, maent yn dangos medrusrwydd priodol wrth roi’r trac pren at ei gilydd ac yn mynd â’r gwahanol drenau ar daith i ble bynnag maen nhw eisiau mynd. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn dangos medrau da iawn wrth drin pêl, yn bownsio peli mawr yn fedrus, ac yn dangos pleser â’u llwyddiant. Mae ychydig ohonynt yn dangos rheolaeth dda iawn wrth ddechrau rholio cylchyn ar hyd y llawr.

Ar draws yr ysgol, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ystyried teimladau plant eraill ac yn chwarae gyda’i gilydd neu ochr yn ochr â’i gilydd am gyfnodau byr. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu annibyniaeth trwy chwarae gyda’r amrywiaeth gyfoethog o adnoddau. Er enghraifft, maent yn penderfynu symud y tiwb hir i ardal wahanol ar y glaswellt cyn cropian trwyddo. Maent yn dangos ystod dda o fedrau creadigol, er enghraifft defnyddio stribedi a smotiau o bapur lliw a phaent i greu eu hargraffiadau lliwgar eu hunain o wahanol anifeiliaid. Yn y dosbarth meithrin, mae’r disgyblion yn creu gwaith celf effeithiol, sy’n cynnwys cyfuniad manwl a lliwgar o baentio ac argraffu. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau i wehyddu dreigiau Cymreig lliwgar. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i gyfleoedd i greu cerddoriaeth ar offerynnau taro, gan amrywio’r tempo. Maent yn canu caneuon cyfarwydd wrth iddynt baratoi ar gyfer byrbryd. Mae lleiafrif ohonynt yn codi eu dwylo yn yr awyr ac yn curo dwylo i’r gerddoriaeth yn frwdfrydig.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n dda ac yn ymateb yn briodol i sbardunau a chwestiynau oedolion. Mae lleiafrif ohonynt yn ymateb ar lafar gan ddefnyddio seiniau neu eiriau unigol. Maent yn parhau i ymgysylltu am gyfnodau byr yn ystod gweithgareddau ac yn dangos lefel ddatblygol o ddealltwriaeth. Weithiau, mae ychydig iawn o ddisgyblion hŷn yn defnyddio ystod fwy helaeth o eiriau, sy’n dangos eu dealltwriaeth wrth iddynt wneud synnwyr o’r byd o’u cwmpas. Er enghraifft, maent yn gofyn am hances bapur i sychu eu trwyn. Weithiau, mae’n cymryd yn hir iddynt ddatblygu’r medrau a’r hyder i fynegi eu hunain ar lafar, er eu bod yn gwneud cynnydd sylweddol mewn cyfnod byr yn achlysurol.

Mae llawer o’r disgyblion yn dechrau defnyddio ychydig o arwyddion ‘Makaton’ i ddangos dealltwriaeth, gan ddefnyddio arwyddion fel ‘diolch,’ ‘mwy,’ ac ‘eto.’ Maent yn ymateb â hyder cynyddol i’r iaith a’r arwyddion geiriol a ddefnyddir gan staff. Er bod llawer o’r disgyblion yn ddieiriau, maent yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth ac weithiau’n ymateb â gwên, neu’n ateb â ‘na’ pendant, pan fydd rhywbeth yn eu digio. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb brwd mewn gwrando ar storïau. Er enghraifft, yn ystod amser cylch yn y dosbarth derbyn, maent yn mwynhau gwrando ar y stori am y siarc fel rhan o’u prosiect am y môr. Maent yn ymuno’n frwdfrydig â’r stori.

Mae ychydig o ddisgyblion dosbarth derbyn yn gyfarwydd â seiniau gwahanol lythrennau, sy’n eu helpu i ddatblygu hyder wrth ddechrau dysgu darllen. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o ystod dda o adnoddau i gefnogi medrau llythrennedd cynnar. Mae llawer o ddisgyblion yn trin a thrafod llyfrau yn dda, gan droi’r tudalennau ac edrych ar y lluniau. Maent yn deall bod llyfrau’n cynnwys storïau cyffrous a lluniau i’w mwynhau. Wrth iddynt fagu hyder, mae ychydig o ddisgyblion dosbarth derbyn yn ymgysylltu’n llawn â chwarae â llythrennau ac yn dechrau eu cysylltu â’r seiniau cyfatebol y maent yn eu cynrychioli. Mae ychydig o ddisgyblion yn dychwelyd yn weithredol at weithgareddau yn seiliedig ar lythrennedd ac yn gwneud cynnydd sylweddol yn seiliedig ar y profiadau a gânt dros gyfnod. Maent yn mwynhau dargopïo llythrennau gan ddefnyddio creonau a phennau ysgrifennu, ac yn defnyddio sialciau’n hyderus i dynnu llun siapiau.

Mae medrau mathemategol llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda yn unol â’u cyfnod datblygu. Mae’r mwyafrif ohonynt yn paru siapiau a lliwiau ac yn rhyngweithio â rhifau gyda hyder cynyddol wrth chwarae mewn gwahanol ardaloedd o’r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn rhedeg ar hyd y llinell rifau wrth i aelod o staff gyfrif yn gyflym neu’n arafach. Mae ychydig ohonynt yn cyfrif gyda’i gilydd i fyny i ddeg, a disgyblion hŷn yn cyfrif yn ôl i lawr i sero gyda chymorth ymarferwr. Mae ychydig o ddisgyblion wrth eu bodd yn ymchwilio i faint o deganau bach fydd yn ffitio i ddwy ochr clorian. Maent yn symud o un ochr i’r llall ac yn gweld y glorian yn gostwng i lawr. Gyda chymorth medrus ac amyneddgar, mae llawer ohonynt yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o wahanol gysyniadau mathemategol. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos dealltwriaeth gynyddol o ychydig o ymadroddion Cymraeg ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu’n dda ag ystod briodol o offer digidol. Er enghraifft, maent yn penderfynu a hoffen nhw i’r car rhaglenadwy deithio at y rhif 1 neu’r rhif 2. Mae llawer o ddisgyblion dosbarth derbyn yn rhyngweithio’n dda â dyfeisiau digidol, er enghraifft wrth liwio sgrin y bwrdd gwyn rhyngweithiol, yn defnyddio’u bysedd i lenwi’r lliw i mewn. Mae hyn yn datblygu eu medrau echddygol

manwl yn effeithiol. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau sgrin gyffwrdd digidol i greu siapiau syml gan ddefnyddio amrywiaeth o liwiau ac offer, ac yn defnyddio’r offeryn swigod i greu patrwm. Maent yn llywio’r rhaglenni’n dda ac yn dileu cynnwys i greu delwedd newydd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion yn Ysgol Cae’r Gwenyn. Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel, ac yn gwybod y bydd staff yn gofalu amdanynt. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd i mewn i’r ysgol yn hapus ac yn cael eu cyfarch yn wresog gan staff. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau corfforol. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion meithrin yn pedlo treisicl yn annibynnol, a llawer ohonynt yn teimlo’n hyderus i archwilio’r ardaloedd dysgu yn yr awyr agored trwy ddringo, neidio, llithro a balansio. Caiff disgyblion eu hannog i flasu bwydydd newydd a chynyddu’r amrywiaeth yn eu diet yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu bod dewisiadau llawer o ddisgyblion o ran bwyta ac yfed yn iach yn datblygu’n dda dros gyfnod.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos hyder cynyddol mewn sefyllfaoedd newydd ac yn dyfalbarhau yn y tasgau a osodir ar eu cyfer. Er enghraifft, mae disgyblion dosbarth meithrin yn dysgu am wydnwch ac yn goddef gweadau newydd yn raddol trwy chwarae, pan fyddant yn archwilio’r ‘gors’ blawd corn gyda’u deinosoriaid tegan.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i arferion y diwrnod ysgol ac yn datblygu dealltwriaeth o reolau a ffiniau. Dros gyfnod, mae mwyafrif ohonynt yn caffael synnwyr o degwch trwy eu profiadau chwarae. Er enghraifft, wrth dynnu llun, maent yn cymryd eu tro ac yn rhannu eu pensiliau gyda ‘Dewi’, y pyped. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau adnabod eu hemosiynau eu hunain ac yn adnabod emosiynau pobl eraill gyda chymorth.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dyfalbarhau i ddatrys problemau wrth archwilio adnoddau yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn dyfalbarhau i greu tai gan ddefnyddio’r teganau adeiladu mawr. Pan fyddant yn cael cymorth gan oedolyn, maent yn dechrau gweithio gyda’i gilydd i ddatrys problemau ymarferol, fel sut i ddal darnau adeiladu yn eu lle er mwyn i ddisgybl arall allu ychwanegu darnau heb achosi i’r tŷ syrthio.

Yn ystod sesiynau chwarae anstrwythuredig, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau priodol o annibyniaeth ac yn gwneud dewisiadau am beth fyddant yn chwarae gydag ef, gan ddewis adnoddau o blith ystod gyfyngedig. Caiff disgyblion eu cynorthwyo’n dda iawn i ymgymryd â phrofiadau newydd ac anghyfarwydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn magu hyder i ymgysylltu ag ymarferwyr mewn sesiynau tylino syml sydd wedi’u cynllunio i wneud iddynt ymlacio.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu ac yn ymgymryd â thasgau’n fodlon ac yn frwdfrydig. Pan fyddant yn cael cymorth gan oedolyn, maent yn dal ati i ganolbwyntio ac yn gweithio’n ddiwyd am gyfnod amser priodol. Maent yn ymddwyn yn dda a gyda chymorth gofalus gan oedolion, ac yn rheoli’r trosglwyddo rhwng gweithgareddau yn llwyddiannus. Mae ychydig o ddisgyblion â heriau penodol yn dysgu sut i reoli eu hemosiynau ac yn cael cysur o’u blwch unigol o ‘bethau arbennig’ sy’n eu helpu i ymlacio ac aros yn bwyllog.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae ehangder addas i gwricwlwm yr ysgol ac mae'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth ar lefel briodol. Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau cyson uchel o'u disgyblion. Maent yn ymdrechu i oresgyn unrhyw rwystrau rhag dysgu ac yn dathlu camau bach at lwyddiant y disgyblion. Mae staff yn annog disgyblion i wneud cynnydd trwy ryngweithio parhaus ac yn defnyddio'u diddordebau i arwain y dysgu ym mhob dosbarth. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn mwynhau dod i wybod am greaduriaid môr ac yn datblygu eu medrau corfforol trwy redeg ar ôl ei gilydd wrth iddynt chwarae gêm o 'siarcod a physgod'.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi'i seilio i raddau helaeth ar ddatblygu medrau cyfathrebu pob un o'r disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r profiadau dysgu wedi'u cynllunio i gynorthwyo disgyblion i ddeall a chael eu deall. Mae oedolion yn addysgu medrau cyfathrebu mewn ffordd strwythuredig a chyson ym mhob dosbarth. Mae arferion dyddiol sydd wedi hen ennill eu plwyf yn cynnwys profiadau dysgu unigol, grŵp bach a dosbarth cyfan. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd dosbarth cyfan bob dydd i ddisgyblion glywed caneuon cyfarwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae staff yn annog disgyblion yn llwyddiannus i gymryd rhan gynyddol weithredol mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu medrau cyfathrebu. Mae athrawon a staff cymorth wedi'u hyfforddi'n dda ac yn hynod fedrus, ac maent yn darparu cymorth rhagorol i ddatblygu cyfathrebu geiriol a dieiriau disgyblion. Er enghraifft, maent yn gweithredu fel modelau rôl iaith da ar gyfer disgyblion trwy roi sylwadau ar yr hyn y maent yn ei weld a'r hyn y mae'r plentyn yn ei wneud fel bod disgyblion yn cael eu trochi mewn iaith lafar gyfoethog. Yn ychwanegol, mae oedolion yn defnyddio dulliau gweledol, dieiriau yn fedrus, ac yn annog a chynorthwyo disgyblion i ddefnyddio'r strategaethau hyn tra'n chwarae ochr yn ochr â nhw.

Mae oedolion yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â ble hoffen nhw archwilio a chwarae, a phenderfynu pa adnoddau sy'n apelio atynt. Er enghraifft, yn y ddau ddosbarth, mae disgyblion yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored am gyfnodau estynedig, gan ddangos lefelau da o ddyfalbarhad mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, ar adegau, mae'n heriol cael y cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau wedi'u hysgogi gan oedolion a chwarae mynediad agored a di-dor.

Mae gan bob disgybl broffil cyfathrebu manwl, sy'n amlinellu'r hyn y mae wedi'i gyflawni a'i gamau nesaf mewn dysgu. Mae staff yn adolygu cynnydd yn erbyn y proffiliau hyn yn rheolaidd ac yn addasu profiadau dysgu i sicrhau bod disgyblion yn cael y ddarpariaeth fwyaf priodol. Er enghraifft, efallai mai camau nesaf disgyblion yw defnyddio offer cyfathrebu gweledol i ofyn am 'fwy' o weithgarwch ffafriedig. Mae athrawon a staff cymorth yn gwneud nodyn o unrhyw deganau y mae'r plentyn yn eu mwynhau'n fawr i annog a chymell cyfathrebu'r disgyblion.

Mae profiadau dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored yn cynnal diddordeb disgyblion yn dda iawn. Er enghraifft, mae gweithgareddau grŵp bach sy'n datblygu medrau synhwyraidd a medrau cyfathrebu disgyblion yn y dosbarth meithrin yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion am gyfnodau cynaledig. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu oddi wrth brofiadau bywyd go iawn dilys a mynd ar ymweliadau yn yr ardal leol, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae staff yn gwneud defnydd rheolaidd ac effeithiol o'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau, gan ddefnyddio geirfa syml y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ei deall yn hyderus. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfarwyddiadau syml, fel gofyn i'r disgyblion ddod draw i'w gweld, yn Gymraeg.

Mae arweinwyr a staff yn defnyddio ymagwedd effeithiol a manwl at sicrhau datblygiad iechyd, cymdeithasol ac emosiynol pob un o'r disgyblion. Mae disgyblion yn bwyta ac yn yfed gyda'i gilydd bob dydd ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i staff wella'r dewisiadau a wna disgyblion ynglŷn â bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn annog plant i fwyta pan fyddant yn colli ffocws, ac yn eu hatgoffa am foesau priodol wrth y bwrdd. Mae ychydig o ddisgyblion yn dod â phecyn bwyd gan eu bod yn bwyta diet cyfyngedig yn unig. Fodd bynnag, mae oedolion yn gweithio gyda disgyblion i sicrhau eu bod yn blasu bwydydd newydd. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion wedi cynyddu'r amrywiaeth o fwydydd y maent yn eu mwynhau, a'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwyta cinio ysgol iach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynnes a chroesawgar, lle mae oedolion yn gwerthfawrogi unigoliaeth pob disgybl ac yn amgyffred eu hanghenion. Er enghraifft, maent yn diwallu anghenion dysgu, iechyd, emosiynol a chymdeithasol unigol disgyblion trwy ystod o ddulliau teilwredig sy'n cyflymu datblygiad disgyblion. Mae'r ysgol yn adnabod ei disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu cysylltiadau gwerthfawr a phartneriaethau cryf sydd o fudd i ddisgyblion a theuluoedd. Mae rhieni a gofalwyr yn gadarnhaol iawn am yr effaith a gaiff yr ysgol ar ddatblygiad eu plant ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt fel teuluoedd.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni cymorth dysgu cyson a chynhwysfawr, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae'r dulliau strwythuredig a chyson i ddatblygu cyfathrebu dieiriau disgyblion yn nodwedd ragorol, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae gan bob un o'r dysgwyr gynllun datblygu unigol effeithiol a phroffil un dudalen hynod bersonoledig. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n helpu staff i deilwra profiadau i anghenion a diddordebau unigol y disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos ag asiantaethau allanol, fel therapyddion lleferydd ac iaith, ymwelwyr iechyd, y gwasanaeth seicoleg addysg a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol. Mae'r dull amlasiantaethol hwn yn hynod effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad disgyblion.

Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn cydweithio'n dda i adolygu a diwygio'r cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o gynnydd pob disgybl ac yn cefnogi staff a rhieni'n dda iawn. Mae'r cydlynydd cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol yn gyswllt gwerthfawr gyda rhieni a gofalwyr. Mae'n darparu cymorth yn unigol ac mewn grŵp ar gyfer teuluoedd, ar sail eu hanghenion. Er enghraifft, mae'n trefnu sesiynau ar gyfer teuluoedd y gallai fod angen cymorth arnynt ag agweddau ar ddatblygiad plentyn, fel dysgu mynd i'r toiled. Mae hyn yn sicrhau bod

rhieni a gofalwyr nid yn unig yn cael cymorth gan weithwyr proffesiynol yn yr ysgol, ond gan ei gilydd. Mae'r ysgol yn rhannu ei dulliau llwyddiannus gydag ysgolion a lleoliadau lleol, gan rannu eu harfer effeithiol er budd y gymuned ehangach.

Mae pob un o'r oedolion yn darparu cymorth effeithiol yn yr ystafell ddosbarth, yn ystod amseroedd chwarae ac yn ystod sesiynau grŵp. Mae staff yn cynnal ymagwedd bwyllog a chyson at reoli ymddygiad ac yn gosod diwylliant cadarnhaol, gan ddefnyddio canmoliaeth, gwobrwyo a dulliau adferol. Maent yn dangos empathi, gofal a dealltwriaeth ddofn o anghenion pob dysgwr. Pan fydd dysgwyr yn mynd yn aflonyddgar neu'n flin, mae staff yn defnyddio ymyriadau, fel tynnu sylw, yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn datblygu ysbrydolrwydd disgyblion trwy fyfyrio. Er enghraifft, mae staff yn addysgu disgyblion i fod yn ddiolchgar am y bwyd amser byrbryd. Mae disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a moesol yn briodol trwy storïau a defnyddio gemau a phypedau, sy'n hyrwyddo cymryd tro ac empathi. Er enghraifft, mae'r defnydd hynod fedrus o 'Emrys, y Ddraig' yn chwalu rhwystrau ac yn magu hyder disgyblion i roi cynnig ar bethau newydd yn eu hamser eu hunain. Mae staff yn hyrwyddo diwylliant Cymru trwy ganeuon a storïau. Mae disgyblion yn datblygu gwerthfawrogiad o'r gwahanol ieithoedd a ddefnyddir yn eu hysgol pan fyddant yn cyfarch ei gilydd bob bore mewn ieithoedd, fel Cymraeg, Pwyleg a Ffrangeg.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg a'u medrau creadigol trwy'r profiadau y maent yn eu darparu. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau o chwarae'n annibynnol yn yr awyr agored, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn ymuno â hwiangerddi cyfarwydd ac yn defnyddio offerynnau, fel y seiloffon ac offerynnau taro, i gyd-fynd â'r gerddoriaeth y maent yn ei chreu.

Ceir diwylliant cryf a sefydledig o ddiogelu yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau hyfforddiant rheolaidd ar gyfer pob un o'r staff. Mae polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd yn unol ag arweiniad presennol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer Ysgol Cae'r Gwenyn yn un am ysgol lle mae pob plentyn yn ffynnu, er gwaethaf unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddo. Mae hi wedi creu diwylliant lle mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn ddiwyd i helpu disgyblion i fwynhau dysgu. Maent yn gwneud eu gorau glas i rymuso disgyblion i ddatblygu a chyflawni tra'n galluogi plant i ddysgu ar eu cyflymdra eu hunain. Mae gan bob un o'r staff berthynas gref a chyson â rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn darparu ystod effeithiol o arweiniad ymarferol sy'n cefnogi lles rhieni yn llwyddiannus. Mae hyn yn eithriadol o bwysig i rieni wrth iddynt ddod i delerau â'r ffaith fod gan eu plentyn angen penodol. Mae cymuned yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i ddelio â heriau a dathlu llwyddiannau.

Mae arweinyddiaeth ddosbarthedig wedi'i datblygu'n dda yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfleoedd ystyrlon i ffynnu o fewn rôl a nodwyd sy'n cefnogi angen penodol yn yr ysgol. Er enghraifft, mae gan aelod o'r staff cymorth gyfrifoldeb penodol am gydlynu cludiant o'r cartref i'r ysgol a darparu gweithdai ar gyfer staff sydd dan gontract, fel gyrwyr tacsi a hebryngwyr disgyblion. Mae'r sesiynau hyn yn darparu strategaethau ar gyfer contractwyr y gallant eu defnyddio i gynorthwyo disgyblion yn ystod eu gwaith. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos

gyda swyddogion yr awdurdod lleol i ddarparu ystod o gymorth a hyfforddiant ar gyfer cydweithwyr yn yr ardal leol.

Mae aelodau o gorff llywodraethol yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn canolbwyntio’n effeithiol ar ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Wrth i’r ysgol barhau i dyfu a datblygu ei darpariaeth, mae’r corff llywodraethol wedi cynnal cymorth cyson ar gyfer y pennaeth a’r staff, er enghraifft wrth iddynt ddatblygu eu hymagwedd at y Cwricwlwm i Gymru. Maent hefyd yn darparu lefel briodol o her, fel bod atebolrwydd effeithiol a ffocws cyson ar sicrhau safonau uchel o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o waelodlin yr ysgol, a’i hymagwedd at fonitro cynnydd disgyblion dros gyfnod.

Ceir proses sefydledig ac effeithiol ar gyfer hunanwerthuso yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i randdeiliaid gyfrannu tuag at ddatblygu gwahanol agweddau ar y ddarpariaeth. Maent yn addasu eu hymagwedd i sicrhau eu bod yn gwerthfawrogi barn pawb yn gyfartal. Er enghraifft, o ganlyniad i adborth cyfyngedig gan rieni, mae’r cydlynydd cyswllt rhwng y cartref a’r ysgol bellach yn cysylltu â rhieni yn uniongyrchol i siarad am beth yw eu barn am y ddarpariaeth yn yr ysgol, a sut y gellid ei gwella, yn eu barn nhw. O ganlyniad i hyn, mae bron pob un o’r rhieni a’r gofalwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at werthuso a datblygu’r ysgol. Mae arweinwyr a staff yn ymgymryd â gweithgarwch monitro buddiol sy’n amlygu arfer effeithiol a meysydd i’w gwella. Er enghraifft, mae’r ysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu ei hymagwedd at gefnogi medrau disgyblion yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru.

Ceir diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol yn Ysgol Cae’r Gwenyn. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bob un o’r staff drafod eu rolau a nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu ymhellach. Mae gan yr ysgol rôl allweddol yng ngwasanaeth STEPS (Cefnogi Athrawon ac Ymarferwyr Addysgol) cynradd yr awdurdod lleol. Mae’r gwasanaeth hwn yn darparu cyfleoedd i’r staff rannu elfennau o’u harfer i gynorthwyo staff mewn ysgolion eraill o fewn yr awdurdod lleol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  21/08/2023